
Mannau Gwyrdd a Llesiant

canllaw arfer da i
gymdeithasau tai



Cynnwys

3

Rhagarweiniad

18

Newid ymddygiad

35

Crynodeb

7

Mannau gwyrdd a
seilwaith gwyrdd

21

Gwella manau gwyrdd presennol
a chydweithio â chymunedau

37

Adnoddau allweddol

12

Ffyrdd o weithio

29

Dylunio manau gwyrdd
a seilwaith gwyrdd

39

Cyfeiriadau



Rhagarweiniad

Rhagarweiniad

Ar gyfer pwy mae'r canllaw hwn?

Mae'r canllaw hwn ar gyfer cymdeithasau tai sydd am wella ansawdd eu mannau gwyrdd presennol a dylunio gwell mannau gwyrdd a seilwaith gwyrdd er budd eu tenantiaid a bioamrywiaeth. Mae'r canllaw hwn yn defnyddio enghreifftiau yng Nghymru ac mae wedi'i osod mewn cyd-destun Cymreig, ond bydd yn ddefnyddiol i unrhyw gymdeithas tai.

Nod y canllaw hwn yw cyfeirio cymdeithasau tai at y wybodaeth sy'n bodoli ynghylch mannau gwyrdd a seilwaith gwyrdd ac mae'n cynnwys ffyrdd o weithio i wella hynny ac astudiaethau achos o'r sector.



Rhagarweiniad



Mannau Gwyrdd yn Tyfu

Growing Green Spaces


Cefndir

Mae'r canllaw hwn yn defnyddio dysgu o'r prosiect Mannau Gwyrdd yn Tyfu. Roedd y prosiect, a oedd yn para am flwyddyn, ac a oedd wedi'i ariannu gan grant peilot Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn cydweithio â Linc Cymru, yn gweithio gydag amryw o bartneriaid ledled de Cymru. Roedd y math o waith yn cynnwys cefnogi prosiectau dan arweiniad y gymuned a oedd yn ymwneud â mannau gwyrdd a chynghori'r tîm datblygu ar ddylunio.

Roedd y prosiect wedi'i ymwreiddio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sydd â'r nod o helpu pobl i fyw bywydau iachach a mwy bodlon drwy wella mynediad at yr awyr agored er budd iechyd a llesiant. Mae mannau gwyrdd yn chwarae rhan allweddol o ran cyflawni'r 7 Nod Llesiant a amlinellwyd yn y ddeddf (Wildlife Trusts Wales 2016, Welsh Government 2015).

Rhagarweiniad

Fel y mae'r diagram isod yn dangos, mae cymdeithasau tai mewn sefyllfa dda i helpu i ddarparu buddion yn sgil mynediad at yr awyr agored a mannau gwyrdd.



A photograph of a field of white daisies in the foreground, with several people blurred in the background. The scene is outdoors, likely in a park or garden, with trees and a brick building visible in the distance. The text is overlaid on the lower half of the image.

Mannau gwyrdd a
seilwaith gwyrdd

Mannau gwyrdd a seilwaith gwyrdd

Mannau gwyrdd neu seilwaith gwyrdd?

Bydd y canllaw hwn yn defnyddio'r ddau derm – ond beth yw'r gwahaniaeth?

Mae seilwaith gwyrdd yn rhwydwaith o nodweddion o wahanol feintiau. Mae'n amlswyddogaethol ac yn cynnwys nodweddion sydd wedi'u cysylltu â'i gilydd, yr ardal wledig gyfagos a phoblogaethau trefol (Building with Nature 2019, Sinnett et al. 2017, Wildlife Trusts Wales 2016, Natural England 2009, Cabe Space 2005, TCPA 2004).



Cysylltedd

- Mae cysylltedd yn golygu bod y dull gweithredu o ran seilwaith gwyrdd yn wahanol ac mae'n caniatáu iddo ddarparu'r buddion mwyaf posibl.
- Gall man gwyrdd, er enghraifft gardd gymunedol, gael ei ystyried yn un o nodweddion seilwaith gwyrdd.

Mannau gwyrdd a seilwaith gwyrdd

Ansawdd

Beth yw nodweddion manau gwyrdd a seilwaith gwyrdd o ansawdd uchel?

Amlswyddogaethol, hygyrch, cynhwysol, ymateb i'r cyd-destun lleol, bioamrywiol, rhyngweithiol (cyfleoedd i chwarae a thyfu bwyd), creu cynefinoedd, nodweddion casglu dŵr a darpariaeth ar gyfer systemau draenio cynaliadwy (Building with Nature 2019, Natural England 2009).

Mae'n allweddol bod manau gwyrdd o ansawdd uchel yn cael eu creu mewn canolfannau trefol yn agos i'r manau lle mae pobl yn byw, er mwyn caniatáu cymaint o fynediad â phosibl a'r buddion mwyaf posibl o ran llesiant (Natural Resources Wales 2016).



Mannau gwyrdd a seilwaith gwyrdd



Buddion

Mae llawer o fuddion yn deillio o fannau gwyrdd a seilwaith gwyrdd o ansawdd uchel a mynediad atynt, gan gynnwys y canlynol:

- Gwella iechyd corfforol ac iechyd meddwl
- Cydlyniant cymdeithasol
- Cyfleoedd i ddysgu a datblygu sgiliau
- Amgylchedd iach (lleihau effeithiau llygredd aer, darparu bwyd iach ac ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd drwy systemau draenio cynaliadwy ac effeithiau coed trefol sy'n oeri)
- Teimlad cadarnhaol am le
- Lleihau'r fioamrywiaeth a gollir a chynyddu cysylltedd cynefinoedd
- Gwell cysylltiad â byd natur a gwell canfyddiad ohono

(Scholz et al. 2018, Natural Resources Wales 2016, Wildlife Trust Wales 2016, Groves and McNish 2011, Stewart et al. 2004, Garden Organic and Sustain 2004)

Mae cysylltiad â natur yn hanfodol i lesiant pobl (IACCF 2010). Mae ailgyflwyno natur i amgylcheddau dynol yn arbennig o arwyddocaol i Gymru, lle mae plant yn teimlo bod ganddynt y cysylltiad lleiaf â natur yn y Deyrnas Unedig gyfan (Bragg et al. 2013).

Mannau gwyrdd a seilwaith gwyrdd

Rheoli a Chynaliadwyedd

- Er mwyn i'r buddion a ddarperir gan fannau gwyrdd a seilwaith gwyrdd gael eu cynnal, mae'n allweddol bod darpariaeth yn cael ei gwneud i'w rheoli yn y tymor hir.
- Os yw'r man gwyrdd dan arweiniad y gymuned, dylid hwyluso'r gwaith o ddileu rhwystrau a all atal y gymuned rhag ei reoli'n gynaliadwy.





Ffyrdd o weithio

Ffyrdd o weithio

Pa ffyrdd o weithio sydd eu hangen i wella a chynyddu mynediad at fannau gwyrdd?

Cydweithio

Mae cydweithio â phartneriaid arbenigol, gwahanol adrannau, gwahanol gymdeithasau tai a chymunedau yn hollbwysig. Mae creu cysylltiadau da â'r grwpiau hyn yn hanfodol i feithrin ymddiriedaeth a chreu cysylltiadau gwaith naturiol.



Astudiaeth achos – St. Mellons Community Garden

Mae St. Mellons Community Garden yn brosiect gwyb a ddechreuwyd yn 2012 ac sydd bellach yn hunangynhaliol i raddau helaeth. Mae'r prosiect yn chwarae rhan allweddol yn y gymuned leol. Mae'n croesawu pawb ac yn derbyn llawer o atgyfeiriadau presgripsiynu cymdeithasol, gan fynd i'r afael ag unigrwydd a chynnig cyfle i ddysgu sgiliau newydd. Mae'n fan gwyrdd sydd wedi ennill Gwobr Gymunedol y Faner Werdd.

Un o elfennau allweddol llwyddiant y prosiect hwn oedd cefnogaeth ar draws cymdeithasau tai, gan fod Tai Wales and West wedi rhoi'r tir a chymdeithasau tai lleol eraill, sef Hafod a Linc Cymru, wedi rhoi cymorth ariannol a hyfforddiant mewn cymorth cyntaf, diogelwch bwyd ac iechyd a diogelwch. Hefyd, roedd Cyngor Caerdydd a Cadwch Gymru'n Daclus wedi chwarae rhan allweddol ar ddechrau'r prosiect.

Ffyrdd o weithio

Cyngor arbenigol

Mae cydweithio â'r rheiny sy'n arbenigo mewn mannau gwyrdd a seilwaith gwyrdd yn arbennig o bwysig wrth wneud y gwaith hwn. Heb hynny, gall prosiectau fethu neu efallai na fyddant yn gynaliadwy nac yn darparu buddion. Er enghraifft, gall dolydd blodau gwyllt fethu oherwydd eu bod yn cael eu rheoli'n amhriodol. Bydd llawer o sefydliadau yn barod i roi cyngor os na allant gydweithio â chi.

Efallai y byddwch am chwilio am brosiectau y mae sefydliadau arbenigol yn eu cynnal yn eich ardal a gweld a allech ddarparu ar y cyd.

Astudiaeth achos – cydweithio â Buglife Cymru

Roedd y prosiect Mannau Gwyrdd yn Tyfu wedi cydweithio'n agos â Buglife Cymru ac roeddent wedi defnyddio amser o'u rhan ym mhrosiect Partneriaeth Tirlun Lefelau Byw i roi cyngor ynghylch creu dŵl blodau gwyllt a darparu Diwrnod Gwenyn ar y cyd, yn Sefydliad Lysaght yn Llysweri, Casnewydd. Roedd yn cynnwys addysg ynghylch gwahanol fathau o wenyn, eu buddion ac adeiladu cartrefi i wenyn unig. Hefyd, roedd y diwrnod yn hyrwyddo'r defnydd o Wastadeddau Gwent. Nid oedd llawer o'r rheiny a ddaeth i'r diwrnod o'r ardal drefol wedi ymweld â nhw, er eu bod yn agos.



Ffyrdd o weithio

Adnoddau

Mae angen cyllid ar y math hwn o waith, yn enwedig yng nghramau cyntaf prosiect. Mae'n bwysig neilltuo cyllid i gychwyn prosiectau fel y gellir eu cynnal, er enghraifft creu gardd gymunedol, lle byddai angen compost, casgen ddŵr, system gompostio ac o bosibl offer, gwelyau uchel, lleoedd storio a hadau. Gallech benderfynu peidio â chael casgen ddŵr er mwyn arbed arian ond, heb ffynhonnell ddŵr, ni fyddai'n gynaliadwy a byddai gweddill y cyllid yn cael ei wastraffu.



Wrth gefnogi prosiectau cymunedol, mae'n bwysig hwyluso eu gallu i gael eu cyllid eu hunain, drwy eu helpu i lunio cyfansoddiad ac i gyflwyno ceisiadau.

Hefyd, mae llawer o awdurdodau lleol yn cynnig cynlluniau sy'n darparu compost am ddim i grwpiau cymunedol – cysylltwch â'ch awdurdod lleol chi i weld beth allant ei gynnig.

Ffyrdd o weithio



Amser

Amser yw un o'ch adnoddau pwysicaf. Mae'r math hwn o waith yn cymryd llawer o amser. Mae angen ichi weithio'n dymhorol, cynllunio prosiectau a chynnwys y gymuned yn effeithiol, a rhoi amser ar ddechrau prosiect cymunedol i sicrhau eich bod wedi gwneud popeth y gallwch i ganiatáu i'r gymuned ei weithredu'n gynaliadwy.

Am y rheswm hwn, peidiwch ag ymwneud â gormod o brosiectau – mae'n well gweithio ar lai o brosiectau a rhoi mwy o amser i sicrhau eu bod yn para am amser hir, ac yna symud ymlaen i'r prosiect nesaf!

Gwaith ar wahanol raddfeydd

Meddylwch yn greadigol – dylai'r math hwn o waith gael ei wneud ar bob graddfa, o waith ar raddfa fach (e.e. blwch ffenestr) i waith ar raddfa stryd a chymdogaeth.

Peidiwch â meddwl nad yw gwaith ar raddfa fach yn werth yr ymdrech – gall newidiadau bach neu wella manau bach wneud gwahaniaeth mawr. Hefyd, gellir defnyddio prosiectau ar raddfa fach i ddangos yr hyn y gellir ei gyflawni.


Ffyrdd o weithio

Prif ffrydio – newid sefydliadol

Mae'n bwysig ceisio prif ffrydio'r math hwn o waith – peidiwch â'i gadw i chi'ch hun yn eich sefydliad chi. Bydd llawer o adrannau eraill yn hollbwysig o ran helpu i wella a chynyddu mynediad at fannau gwyrdd. Er enghraifft, addysgu a chydweithio â thimau rheoli asedau i ymwreiddio dull llac o ran torri porfa mewn contractau cynnal a chadw tiroedd, a fydd o fudd i bryfed peillio, neu gydweithio â rheolwyr iechyd a diogelwch i newid eu canfyddiad ynghylch unig wenyn, a fydd yn caniatáu ichi osod cartrefi i unig wenyn.



Newid ymddygiad



Newid ymddygiad

Newid ymddygiad

Drwy gydol y prosiect Mannau Gwyrdd yn Tyfu, roeddem wedi dysgu pwysigrwydd ceisio newid ymddygiad er mwyn cynyddu mynediad at fannau gwyrdd. Hynny yw, newid sefydliadol o'r brig i lawr a newid gan y gymuned o'r gwaelod i fyny.

Ond sut mae newid ymddygiad?

Yn gyntaf, mae'n hanfodol deall beth sy'n achosi'r ymddygiad – ai cynllun y system, yr amgylchedd neu'r unigolyn ydyw?

Yna, ceisiwch newid yr hyn sy'n achosi'r ymddygiad hwnnw, er enghraifft, drwy addysg, hyfforddiant, newid amgylchedd neu gymell.

Er mwyn i'r newid o ran ymddygiad ddigwydd, mae'n rhaid i'r unigolion feddu ar y wybodaeth i gyflawni'r ymddygiad, y cyfle ffisegol (bod yr amgylchedd ffisegol yn caniatáu'r ymddygiad) a'r cyfle cymdeithasol (a yw'r cylch cymdeithasol yn gwerthfawrogi ac felly'n caniatáu'r ymddygiad) (Lefevre).

Newid ymddygiad

Astudiaeth achos – The Lysaght Institute Community Garden

Bu'r prosiect Mannau Gwyrdd yn Tyfu yn gweithio gyda'r grŵp Friends of Lysaght, sef tenantiaid Rhodfa Orb yn Llysweri, Casnewydd, i greu gardd gymunedol yng ngardd Lysaght Institute. Roedd gwely uchel yn yr ardd a oedd wedi'i lenwi â phridd, fodd bynnag, doedd erioed wedi cael ei ddefnyddio, er i'r gymuned ddangos diddordeb mewn gwneud hynny.



Drwy gydweithio ac ymgysylltu â Friends of Lysaght roeddem wedi nodi'r hyn a oedd yn atal y grŵp rhag defnyddio'r gwely a'r rheswm pennaf oedd gallu ffisegol - roedd gwely uchel ond doedd dim bin compost, ffynhonnell ddŵr nac offer. Hefyd, roedd diffyg cyfle cymdeithasol - doedd y grŵp ddim wedi datblygu teimlad o berchnogaeth ar y man eto. Drwy oresgyn hyn, mae Cyfeillion Lysaght bellach yn defnyddio'r man yn rheolaidd ar gyfer digwyddiadau, tyfu bwyd, ac maent wedi creu dŵl blodau gwyllt. Bellach, mae'r ardd wedi cael Gwobr Gymunedol y Faner Werdd sy'n cydnabod y cynnydd y mae'r grŵp wedi'i wneud.



Gwella mannau gwyrdd presennol a chydweithio â chymunedau

Gwella manau gwyrdd presennol a chydweithio â chymunedau



Prosiectau dan arweiniad y gymuned

Mae'n bwysig cadarnhau rôl y gymuned mewn unrhyw brosiect. Nhw fydd yn defnyddio'r man gwyrdd. Bydd cadarnhau hyn a gweithio'n unol â hynny yn allweddol i lwyddiant y prosiect.

Ydy'r prosiect dan arweiniad y gymuned? A fydd y gymuned yn defnyddio ac yn rheoli'r man wrth symud ymlaen? Os felly, mae'n allweddol cydweithio â'r gymuned, nid gweithio ar gyfer y gymuned, er mwyn sicrhau bod y prosiect wir dan arweiniad y gymuned. Siaradwch â'r gymuned – ewch ati i ddarganfod beth sydd ei angen arnyn nhw a gweithredwch fel hwylusydd, gan eu rhoi mewn cysylltiad â phartneriaid arbenigol, adnoddau a chymorth. Drwy wneud hyn, byddwch yn helpu i greu teimlad o berchnogaeth gymunedol ar y man gwyrdd sy'n allweddol i'w gynaliadwyedd. Hefyd, mae'n bwysig cadarnhau rolau a chyfrifoldebau pawb yn glir, naill ai'n anffurfiol neu'n ffurfiol drwy drwydded.

Mewn achosion lle nad yw'r prosiectau dan arweiniad y gymuned, bydd angen i'r gymuned ymwneud yn agos â nhw yn y cam ymgysylltu o hyd, er mwyn sicrhau bod y gwelliannau i fannau gwyrdd presennol yn hygyrch a'u bod yn ymateb i'r cyd-destun lleol.

Gwella manau gwyrdd presennol a chydweithio â chymunedau

Astudiaeth achos – glanhau afon Ebwy – Parc Jiwbilî

Daeth un o denantiaid ystâd dai newydd o'r enw Parc Jiwbilî yn Nhŷ-du, Casnewydd, at Mannau Gwyrdd yn Tyfu i gael cymorth i drefnu diwrnod glanhau'r afon ar ddarn lleol o afon Ebwy, er mwyn dod â'r gymuned at ei gilydd. Roeddem wedi cydweithio ag ef i ddylunio taflen a hyrwyddo'r digwyddiad, ei roi mewn cysylltiad â Cadwch Gymru'n Daclus a ddarparodd y digwyddiad ar y cyd, a darparu offer yn rhan o ymgyrch Glanhau Moroedd Cymru. Hefyd, roeddem wedi rhoi'r tenant mewn cysylltiad â grŵp amgylcheddol lleol, sef Wild About Rogerstone, a ddyluniodd daflen sylwi ac a gysylltodd â'r Ymddiriedolaethau Natur i roi sgwrs ar ecoleg leol dyfrgwn. Roedd y diwrnod ei hun yn wych, ond y prif lwyddiant oedd cydweithio'n agos â'r tenant, gan gefnogi ei fenter a'i roi mewn cysylltiad â grwpiau lleol yn yr ardal.



Gwella manau gwyrdd presennol a chydweithio â chymunedau



Ymgysylltu

Efallai mai ymgysylltu effeithiol â'r gymuned yw rhan bwysicaf unrhyw brosiect. Mae ymgysylltu yn allweddol i bob math o brosiectau gwella ac ôl-osod manau gwyrdd. Ni ddylid ystyried ymgysylltu yn rhywbeth y mae'n rhaid ei wneud er mwyn symud ymlaen â phrosiect – dylai fod ganddo rôl allweddol wrth ddiffinio prosiect.

Meddyliwch am sut gallwch deilwra eich dull ymgysylltu ar gyfer y rheiny rydych yn ceisio ymgysylltu â nhw. Defnyddiwch wahanol ddulliau, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol. Meddyliwch am y lleoliad (ewch at y gymuned, nid y ffordd arall o gwmpas) a'r iaith (er enghraifft, newid 'gweithdy' i 'sgwrs').

Gwella manau gwyrdd presennol a chydweithio â chymunedau

Astudiaeth achos – adfywio amgylcheddol Tre Cwm

Mae Tre Cwm yn Llandudno yn ystâd lle trosglwyddwyd stoc, sy'n cynnwys bron 400 o gartrefi a drosglwyddwyd o'r awdurdod lleol i Cartrefi Conwy yn 2008. Mae Cartrefi Conwy yn berchen ar 59% o'r ystad ac yn rheoli'r cartrefi hynny. Roedd gan Dre Cwm ddiffyg amlwg o ran manau gwyrdd ac mae'r ardal wedi dioddef yn sgil ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd Cartrefi Conwy wedi creu Cronfa Amgylcheddol i wella manau awyr agored ar draws y cymdogaethau, gan ddarparu £771,000 y flwyddyn dros 5 mlynedd. Bellach, mae'r adfywio wedi trawsnewid yr ystad, gan greu cymuned y gellir ymfalchïo ynddi a chyflogi trigolion lleol yn y broses. Mae'r ystad wedi cael Gwobr y Faner Werdd. Rhan allweddol o'r llwyddiant oedd ymgynghori â'r gymuned. Dechreuodd y prosiect â 12 mis o ymgynghori cychwynnol a oedd yn defnyddio dulliau arloesol, gan ymgynghori'n unol ag olwyn emosiynau Plutchik i asesu sut roedd pobl yn teimlo am le a'u dyheadau o ran y prosiect.

Yna, cafwyd ymgynghori drwy gydol y prosiect a chyflwynwyd y cynigion a'r cynlluniau i'r gymuned. Ymgynghorwyd yn bersonol, gan guro ar ddrysau, mewn digwyddiadau a drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Hefyd, rhoddwyd ystyriaeth i amseru, er enghraifft, sut byddai'r tymhorau yn effeithio ar ymgynghori, ac i ymgynghori mewn modd ystyrlon â phlant ac oedolion (Stowe 2019).



(Cartrefi Conwy 2015)

Gwella manau gwyrdd presennol a chydweithio â chymunedau



Sgiliau Cymunedol

Gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar asedau wrth ymgysylltu â'r gymuned, ymchwiliwch i ba sgiliau ac adnoddau sydd ar gael eisoes yn y gymuned (Russell 2015).

Sut gallech alluogi rhannu'r rhain a pha sgiliau y gall fod angen eu diweddarau?

Prosiectau sy'n canolbwyntio ar y gymuned

Os yw prosiectau dan arweiniad y gymuned, mae hefyd yn bwysig sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar y gymuned ac nad ydyn nhw'n canolbwyntio ar y gymdeithas tai. Hynny yw, rhaid sylweddoli bod aelodau o'r gymuned yn gwneud hyn yn eu hamser eu hunain, efallai na fydd y prosiectau yn symud mor gyflym ag yr oeddech yn ei ddisgwyl ac efallai na fyddan nhw'n 'daclus'. Fodd bynnag, dydy hyn ddim yn golygu nad yw'r prosiect yn darparu buddion! Meddyliwch am eich gardd eich hun. Weithiau bydd yn mynd yn anniben iawn, ond dydy hynny ddim yn golygu nad yw'n darparu buddion i chi, o ran bioamrywiaeth, ac ati.

Gwella mannau gwyrdd presennol a chydweithio â chymunedau

Astudiaeth achos – Cragside Gardens


Bu'r prosiect Mannau Gwyrdd yn Tyfu yn gweithio gyda thenantiaid Clos Cragside yn Llaneirwg, Caerdydd, i droi lle parcio segur ym mhen y clos yn ardd gymunedol. Roedd y prosiect dan arweiniad y gymuned ac roeddem wedi helpu aelodau'r gymuned i glirio'r lle, yn ogystal â rhoi pren wedi'i ailgylchu i'r ardd er mwyn adeiladu gwelyau uchel, a bin compost a chasgen ddŵr. Ar ôl dechrau'n gyflym, aeth un o'r tenantiaid yn y clos yn sâl ac roedd aelodau'r gymuned yn cymryd eu tro i fynd â nhw i'r ysbyty. Tyfodd yr ardd yn wyllt – achosodd hyn bryder ymhlith rhai yn y gymdeithas tai. Fodd bynnag, doedd y gymuned ddim yn bwriadu plannu tan y gwanwyn a doedden nhw ddim yn gweld diben chwynnu'n rhy gynnar oherwydd y byddai'r chwyn yn tyfu'n ôl. Er mwyn symud ymlaen â'r prosiect, roedd yn bwysig esbonio wrth y gymuned sut roedd rhai yn y gymdeithas tai yn teimlo, ond hefyd i'r gymdeithas tai newid eu disgwyliad ynghylch y prosiect er mwyn ei weld yn fwy o safbwynt y gymuned.



Gwella manau gwyrdd presennol a chydweithio â chymunedau

Syniadau am wella manau gwyrdd

Dim syniadau? Edrychwch ar y diagram isod. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar yr adran adnoddau allweddol yn y canllaw hwn.





Dylunio manau gwyrdd
a seilwaith gwyrdd

Dylunio mannau gwyrdd a seilwaith gwyrdd

Dylunio mannau gwyrdd a seilwaith gwyrdd

Bydd y rhan hon o'r canllaw yn rhoi sylw i ddylunio mannau gwyrdd a seilwaith gwyrdd newydd. Bydd yn defnyddio safon Building with Nature, sydd wedi diffinio seilwaith gwyrdd o ansawdd uchel drwy dystiolaeth ac arferion gorau. Ni fydd y rhan hon yn trafod y safon yn gynhwysfawr – edrychwch ar wefan a chanllaw defnyddwyr Building with Nature i gael terminoleg benodol y safon a gwybodaeth fanwl. Rydym yn eu hargymell yn fawr!

Mae'n allweddol nad yw datblygiadau sy'n cynnwys seilwaith gwyrdd o ansawdd uchel yn cael eu cadw ar gyfer y cyfoethog yn unig – os felly, ni ellir darparu buddion o ran llesiant, gan ei bod yn hanfodol bod mannau gwyrdd a seilwaith gwyrdd o ansawdd uchel yn hygyrch ac yn agos i'r mannau lle mae pobl yn byw (Natural Resources Wales 2016). Mae hyn yn pwysleisio rôl bwysig cymdeithasau tai o ran darparu seilwaith gwyrdd o ansawdd uchel.



Dylunio manau gwyrdd a seilwaith gwyrdd

Seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol



Dylai seilwaith gwyrdd fod yn amlswyddogaethol, cysylltu â'r ardal wledig gyfagos a phoblogaethau trefol, meddu ar nodweddion cysylltiedig a gweithredu ar ystod eang o raddfeydd, gan gynnwys strydoedd, cymdogaethau a thirweddau (Sinnett et al. 2017). Mae'r nodweddion yn cynnwys y canlynol:

- Blychau adar/ystumod
- Toeon a waliau gwyrdd
- Systemau casglu dŵr
- Coed/perthi ar strydoedd
- Gerddi preifat
- Systemau draenio cynaliadwy
- Chwarae naturiol
- Tyfu bwyd
- Coridorau gwyrdd strategol
- Cynefinoedd
- Nodweddion glas (dŵr)

Adlewyrchu'r amgylchedd lleol

Dylai nodweddion seilwaith gwyrdd:

- Adlewyrchu cymeriad yr amgylchedd lleol
- Cyfrannu at hunaniaeth leol a chymeriad y dirwedd
- Cael eu dylunio mewn modd sy'n sensitif i'r amgylchedd lleol – gan gynnwys cynefinoedd presennol (e.e. coetiroedd)
- Gweithio gyda rhediad y tir yn hytrach nag yn ei erbyn

(Building with Nature 2019, Natural England 2009)

Dylunio mannau gwyrdd a seilwaith gwyrdd

Ymateb i'r cyd-destun a'r polisiau lleol

Dyluniwch seilwaith gwyrdd yng ngoleuni'r cyd-destun lleol:

- Ymgysylltu'n ystyrlon â'r gymuned
- Cynnwys cyfeiriad at bolisiau lleol – gweler cynlluniau llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Lleol a chynlluniau gweithredu bioamrywiaeth lleol

Cyfraniad cadarnhaol at leihau'r effaith ar yr amgylchedd

Dylai seilwaith gwyrdd gyfrannu'n gadarnhaol at leihau'r effaith ar yr amgylchedd. Mae hyn yn cynnwys allyriadau carbon, gwella ansawdd aer a phridd, lleihau llygredd sŵn a golau.

Hefyd, dylai gyfrannu at ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd a bod yn gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd (Building with Nature 2019).

Astudiaeth achos – llygredd aer yn Sunnyside

Mae Linc Cymru yn dylunio datblygiad tai newydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr o'r enw Sunnyside sy'n cynnwys llawer o seilwaith gwyrdd. Mae'r safle yn ffinio ar Stryd y Park sydd â lefelau llygredd aer uchel iawn ac sy'n Ardal Rheoli Ansawdd Aer. Gan ymateb i'r cyd-destun lleol hwn, mae'r cynlluniau yn cynnwys coed ychwanegol ar hyd ffin y safle â Stryd y Parc. Dewiswyd y coed yn ôl eu gallu i wella ansawdd aer, drwy ddefnyddio gwaith gan Steward et al. (2004). Mae'r gwaith hwn yn dangos gallu gwahanol rywogaethau coed i wella ansawdd aer ac mae'n bwysig nodi bod gan rai coed y potensial i'w waethygu!



Dylunio mannau gwyrdd a seilwaith gwyrdd

Rheoli a chynnal a chadw yn y tymor hir

Mae'n allweddol bod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer rheoli a chynnal a chadw yn y tymor hir ar ôl datblygu.

Mae hyn yn hanfodol i sicrhau bod y swyddogaeth a'r buddion yn cael eu cynnal dros amser (Building with Nature 2019).



Astudiaeth achos – Barrack Lane

Roedd y tîm datblygu presennol yn Linc Cymru wedi etifeddu'r gwaith o reoli blychau planhigion ag eiddew wedi'i blannu ynddynt a gafwyd yn wreiddiol gan y tîm datblygu blaenorol. Mae'r blychau planhigion yn nodwedd bwysig ym man gwyrdd Barrack Lane, sef datblygiad yng nghanol dinas Caerdydd. Yn ystod haf poeth 2018, bu farw llawer o'r eiddew. Achosodd hyn bryderon ymhlith y tenantiaid ynghylch estheteg yr ardal a oedd yn dirywio. Hefyd, ni allai eiddew marw ddarparu buddion yr eiddew byw (sef bod y blodau yn darparu bwyd i bryfed peillio a'r aeron yn darparu bwyd i adar).

Bu farw'r eiddew oherwydd na roddwyd systemau rheoli na systemau cynnal a chadw ar waith. Yn y pen draw, arweiniodd hyn at roi mwy o amser ac arian i ailblannu'r ardal. Roeddem wedi arbrofi â phlannu gwahanol rywogaethau i weld pa rai fyddai'n tyfu'n dda yn yr amodau, yn ogystal â chreu cynllun rheoli newydd, gan dderbyn cyngor gan arddwriaethwr.

Er bod hyn wedi rhoi cyfle i gynyddu amrywiaeth y planhigion, byddai wedi bod yn well dechrau gyda phlannu bioamrywiol a gwneud darpariaeth ar gyfer rheoli a chynnal a chadw yn y tymor hir.

Dylunio manau gwyrdd a seilwaith gwyrdd

Llesiant

Dylai seilwaith gwyrdd gael ei ddylunio i fod o fudd i lesiant pobl. Dylai fod yn:

- Hygyrch
- Cynhwysol (wedi'i ddylunio i adnabod anghenion pobl leol)
- Cynnig mwynhad tymhorol
- Creu cydlyniant cymdeithasol
- Lleihau anghydraddoldebau iechyd

Dŵr

Dylai dŵr mewn seilwaith gwyrdd o ansawdd uchel:

- Gael ei reoli'n effeithiol (swm ac ansawdd)
- Cynyddu'r gallu i wrthsefyll llifogydd
- Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd am fioamrywiaeth

Bywyd gwylt

Mae seilwaith gwyrdd o ansawdd uchel:

- Yn cyfrannu at wrthdroi bioamrywiaeth sy'n dirywio
- Yn cysylltu cynefinoedd o fewn ffiniau'r cynllun
- Yn creu cynefinoedd sy'n berthnasol yn lleol
- Yn cysylltu â'r dirwedd ehangach
- Wedi'i adeiladu mewn modd sensitif (defnyddir cyfleoedd i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth yn ystod y camau cynllunio ac adeiladu)

(Building with Nature 2019)





Crynodeb

Pa fath o gymdeithas tai sy'n defnyddio'r arferion gorau hyn?

Cymdeithas tai sy'n cydnabod ac yn darparu buddion yn sgil cynyddu mynediad at fannau gwyrdd a seilwaith gwyrdd o ansawdd uchel.

Cymdeithas tai sy'n gwneud hynny drwy:

- Gydweithio'n agos â thenantiaid a'r gymuned mewn modd ystyrlon, o'r cam syniadau i'r cam gweithredu, a hwyluso prosiectau dan arweiniad y gymuned.
- Cydweithredu â phartneriaid arbenigol, cymdeithasau tai eraill, tenantiaid ac adrannau yn eu sefydliad eu hunain.
- Rhoi adnoddau i fannau gwyrdd a dylunio mannau gwyrdd a seilwaith gwyrdd o ansawdd uchel yn eu datblygiadau newydd.

Send seed trays to interested parties to propagate at home.

High Schools
Nona class?
Sports groups

BBQ's
in Summer?

Pollinator habitat - shade...


Bethan

Fruit trees

Liswerry School?

Get some veggie
Veggies in here!

Adnoddau allweddol
a cyfeiriadau



LISSAGHT INSTITUTE GREENING

This is v. high. Non-accessible

low accessible planters - climbers

MOR:SON

Build it and people will come.

can we set water off the roof water butt

St Andrews School?

Adnoddau allweddol

Adnoddau allweddol

- Cronfa ddata ymchwil seilwaith gwyrdd y Gymdeithas Cynllunio Gwlad a Thref - <https://www.tcpa.org.uk/green-infrastructure-research-database>
- Canllaw Defnyddwyr Building with Nature - <https://www.buildingwithnature.org.uk/how-to-start>
- Gwefan Emors Gate – hadau a rheoli blodau gwyllt o ansawdd uchel -<https://wildseed.co.uk>
- Coed am ddim i ysgolion a chymunedau - <https://www.woodlandtrust.org.uk/plant-trees/schools-and-communities/>
- Y Faner Werdd - <https://www.keepwalestidy.cymru/Pages/Site/cy/Category/banerwerdd>
- Cynllun llesiant eich Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Lleol a'ch cynllun gweithredu bioamrywiaeth lleol
-
- Y gymuned leol a phartneriaid arbenigol!
- Y cyfeiriadau isod

Cyfeiriadau

Cyfeiriadau

Bragg, R. et al. 2013. *Measuring connection to nature in children aged 8 - 12: A robust methodology for the RSPB* [Online]. Available at: <https://www.rspb.org.uk/globalassets/downloads/documents/positions/education/measuring-connection-to-nature-in-children-aged-8--12--methodology.pdf> [Accessed 14/11/18].

Building with Nature. 2019. *Building with Nature User Guide* [Online]. Available at: <https://www.buildingwithnature.org.uk/how-to-start> [Accessed 5/11/19].

Cabe Space. 2005. *Start with the park* [Online]. Available at: <http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20110118142335/http://www.cabe.org.uk/files/start-with-the-park.pdf> [Accessed 02/11/18].

Garden Organic and Sustain. 2014. *The benefits of gardening and food growing for health and wellbeing* [Online]. Available at: https://www.gardenorganic.org.uk/sites/www.gardenorganic.org.uk/files/GrowingHealth_BenefitsReport_0.pdf [Accessed 15/11/18].

Groves, L. and McNish, H. 2011. *A longitudinal study of the Forestry Commission - Merrylee Primary School – Glasgow City Council partnership 2008-2011* [Online]. Available at: <http://outdoorplayandlearning.org.uk/wp-content/uploads/2016/07/naturalplaystudyfull-1.pdf> [Accessed 13/11/19].

IACCF. 2010. *Biodiversity and Climate Change in the UK*. Peterborough: JNCC.

Lefevre, C. E. (Date unknown). *The Behaviour Change Wheel in Action - applying behaviour change methods and techniques to environmental issues* [Online]. Available at: https://www1.bps.org.uk/system/files/user-files/Division%20of%20Occupational%20Psychology/public/The%20Behaviour%20Change%20Wheel%20in%20Action%20_Sept2016.pdf [Accessed 05/11/19].

Natural England. 2009. *Green Infrastructure Guidance* [Online]. Available at: <http://publications.naturalengland.org.uk/publication/35033> [Accessed 02/11/18].

Cyfeiriadau

Natural Resources Wales. 2016. *The State of Natural Resources Report (SoNaRR) 2016* [Online]. Available at: <https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/the-state-of-natural-resources-report-assessment-of-the-sustainable-management-of-natural-resources/?lang=en> [Accessed 26/10/18].

Russell, C. 2015. *Asset Based Community Development (ABCD): Looking Back to Look Forward*. Online: Cormac Russell.

Scholz, T. et al. 2018. Cooling Effects and Regulating Ecosystem Services Provided by Urban Trees—Novel Analysis Approaches Using Urban Tree Cadastre Data. *Sustainability* 10(712), doi:10.3390/su10030712.

Sinnott, D. et al. 2017. *Building with Nature - a new benchmark for green infrastructure* [Online]. Available at: <http://eprints.uwe.ac.uk/33406/1/Sinnott%20et%20al%202017%20Building%20with%20nature.pdf> [Accessed 13/11/19].

Stewart, H. et al. 2004. *Trees and Sustainable Urban Air Quality*. Centre for Ecology and Hydrology and Lancaster University [Online]. Available at: <http://www.es.lancs.ac.uk/people/cnh/UrbanTreesBrochure.pdf> [Accessed 16/11/18].

Stowe, M. 2019. *A case study report of the Tre Cwm Environmental Regeneration Scheme*. Wales: Cartrefi Conwy.

TCPA. 2004. *Biodiversity by Design A Guide for Sustainable Communities* [Online]. Available at: <https://www.veronica.cz/uses/Biodiversity%20by%20Design.pdf> [Accessed 20/11/18].

Welsh Government. 2015. *Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 The Essentials* [Online]. Available at: <https://futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/02/150623-guide-to-the-fg-act-en.pdf> [Accessed 14/11/19].

Wildlife Trusts Wales. 2016. *Green Infrastructure: A Catalyst For Wellbeing Of Future Generations In Wales* [Online]. Available at: http://www.wtwales.org/sites/default/files/green_infrastructure.pdf [Accessed 02/11/18].